Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**HYDREF 25**

**Croeso** i rifyn mis Hydref o'r Bwletin ar gyfer yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Mae bellach yn flwyddyn ers gweithredu'r ADUS! Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, cafodd 27 o ADUSau eu comisiynu, ac rydym yn gobeithio dechrau cael adroddiadau ADUS yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Blwyddyn Un o'r ADUS wedi'i gwblhau a'i lofnodi gan y Bwrdd Gweinidogol. Bydd yr adolygiad yn dechrau rywbryd tua diwedd y flwyddyn.

**ADUSau sydd wedi'u comisiynu**

Cafodd un ADUS ei gomisiynu ym mis Hydref, a bellach 28 yw cyfanswm yr ADUSau a gafodd eu comisiynu ers 1 Hydref 2024.

Ymarfer Plant: 15

Ymarfer Oedolion: 4

Yn ymwneud â Cham-drin Domestig: 5

Lladdiad Iechyd Meddwl: 2

Adolygiadau ar y Cyd: 2

## Newyddion

Mae'r Hwb Cydgysylltu a'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd wrthi'n datblygu adnodd i Adolygwyr a Chadeiryddion ar gyfer ymgysylltu â throseddwyr a throseddwyr honedig fel rhan o'r broses ADUS. Rydym yn awyddus i glywed gan Adolygwyr a Chadeiryddion am yr hyn y maen nhw am i'r adnodd hwn ei ddarparu. A oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau y dylai'r adnodd roi sylw iddynt? A oes gennych brofiad o ymgysylltu â throseddwyr neu droseddwyr honedig, sef profiad a allai fod o gymorth wrth ddatblygu'r arferion gorau? Rydym hefyd yn awyddus i dreialu'r adnodd hwn gyda grŵp bach o Adolygwyr a Chadeiryddion cyn iddo gael ei gwblhau a'i gylchredeg yn ehangach. Os yw hyn yn rhywbeth sydd o ddiddordeb ichi, cysylltwch â ni yn ADUSCymru@llyw.cymru.

# Yr iFframwaith ar waith yn ymarferol

Rydym wedi cael y diweddariad canlynol gan aelod o staff y Bwrdd Diogelu:
*Yn dilyn cyflwyniad gwybodus Dr Michelle McManus ar yr Argymhelliad i Gymru ynghylch yr iFframwaith a rôl AI wrth gryfhau argymhellion diogelu, fe ddefnyddiais offer AI i gefnogi'r gwaith o ddatblygu argymhellion ar gyfer Adolygiad Diogelu Sengl Unedig a gynhaliwyd yn ddiweddar. Fe wnes i fewnbynnu'r argymhellion yr oedd yr Adolygwyr wedi'u hysgrifennu ac uwchlwytho'r iFframwaith i AI. Gan ddefnyddio saith dimensiwn allweddol yr iFframwaith - Materion, Bwriad, Goblygiadau, Gweithredu, Cyfranogiad, Croestoriad, ac Effaith - fe wnaeth AI alluogi asesiad systematig o bob argymhelliad. Darparodd sgoriau ac adborth strwythuredig, gan dynnu sylw at feysydd cryfder a nodi'r meysydd lle'r oedd angen gwelliannau. Er enghraifft, nododd AI argymhellion lle nad oedd y mater wedi'i fynegi'n glir, neu lle nad oedd amserlenni realistig ar gyfer cynlluniau gweithredu. Roedd y broses yn gymorth i wella cysondeb, gan sicrhau ei bod yn bosibl gweithredu pob argymhelliad. Mae gallu AI i ddehongli a chymhwyso meini prawf y fframwaith wedi helpu i greu argymhellion diogelu cliriach a mwy effeithiol.*
Rydym yn awyddus i glywed gan eraill sy'n ymgorffori'r iFframwaith yn eu harferion adolygu.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

# Hyfforddiant

Cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth ADUS ar-lein i uwch arweinwyr ar 24 Tachwedd, 9 Rhagfyr, 22 Ionawr a 27 Chwefror (9.30am-12pm). Bydd y sesiynau yn ymdrin â'r canlynol:

Trosolwg o'r broses ADUS a'i phrif egwyddorion
Sut y mae sefydliadau'n cael eu cynrychioli
Rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Panel
Rôl y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'i Grŵp Adolygu Achosion
Adroddiadau ADUSau, eu hargymhellion a'u cyhoeddi

I gael rhagor o wybodaeth ac i neilltuo lle, cysylltwch â'ch Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

## Wythnos Ddiogelu Genedlaethol

Hoffem eich atgoffa y bydd yr Wythnos Diogelu Genedlaethol yn digwydd rhwng Llun 10 a dydd Gwener 14 Tachwedd eleni. Mae'r Byrddau Diogelu wedi datblygu rhaglen wych o ddigwyddiadau ar gyfer eu rhanbarthau sy'n cwmpasu llawer o wahanol agweddau ar ddiogelu, gan gynnwys niwed ar-lein, cam-drin plant yn rhywiol, gallu meddyliol, diogelu mewn chwaraeon, a cham-fanteisio, i enwi ond ychydig. Mae'r rhaglenni ar gael ar wefannau rhai o'r Byrddau, neu drwy gais gan yr Unedau Busnes.